Nionyn – Winwnsyn

Cysyniadau: **Cenfigen, cyfeillgarwch.**

Amcan: **Dangos fel y gall cenfigen amharu ar berthynas dda.**

Cyfarpar: **Nionyn, llwy de, cyllell i blicio'r nionyn.**

Cyflwyniad:

● Cyn dangos y nionyn rhoi pos i'r plant. Beth sy'n gwneud i chi grio ac mae'n gadael ei arogl ar ei ôl? Ar ôl i'r plant gael cyfle i ymateb dangos y nionyn. Mae hwn yn cael ei ddefnyddio yn y gegin. Bydd yn cael ei roi mewn salad, yn cael ei goginio mewn stiw a lobsgóws. Bydd hefyd yn cael ei roi mewn byrger ac mae rhai mathau o greision yn blasu o nionyn.

● Mae nionod/winwns yn cynnwys fitamin C. Os ydych wedi cael eich pigo gan wenyn maen nhw'n dweud mai'r ffordd orau i leddfu'r boen ydi rhwbio sudd nionyn ar y pigiad. Yn ôl rhai pobl mae cymysgu sudd nionyn a mêl yn gallu'n helpu i gael gwared ag annwyd.

● Dowch i ni wneud arbrawf. Un ffordd o'n rhwystro rhag crio wrth blicio nionyn ydi rhoi llwy de yn eich ceg. Dowch i ni roi tro arni. Oedd yr arbrawf yn gweithio? (Gwell fyddai i'r arweinydd blicio'r nionyn – iechyd a diogelwch!)

● Ond mae un anfantais fawr wrth ddefnyddio'r nionyn i goginio. Mae'n gadael ei ôl. Bydd yr arogl ar eich dillad a hefyd yn llenwi'r tŷ. Mae hefyd yn gadael blas drwg ar eich gwynt. Mae 'na bethau eraill, hefyd, sy'n gadael eu hôl.

Stori:

Dau ffrind da oedd Dei a Guto. Roedden nhw'n byw drws nesaf i'w gilydd ar y stryd, Dei yn rhif 9 a Guto yn rhif 10. Yn yr ysgol roedden nhw'n chwarae efo'i gilydd. Dros y Sul roedden nhw yn nhai ei gilydd. Ac yn ystod y gwyliau byddai'r ddau deulu yn mynd dramor ar eu gwyliau. Os byddai Dei wedi cael dillad newydd byddai Guto eisiau dillad 'run fath. Ac os byddai Guto wedi cael tegan newydd byddai Dei yn mynnu cael tegan 'run fath. Ac i ychwanegu at hyn roedd y ddau yn cael eu pen-blwydd ar yr un diwrnod. Byddai'r ddau deulu yn dod at ei gilydd i drefnu parti mawr iddyn nhw. Un flwyddyn roedd y parti yn y ganolfan hamdden, a'r flwyddyn wedyn yn y ganolfan ddringo ac felly roedd hi bob blwyddyn.

Ond, un flwyddyn fe ddigwyddodd rhywbeth. Dymuniad Guto oedd cael bwrdd dartiau. Ar ôl swnian ar ei rieni ac addo bod yn fachgen da ac ufudd fe gafodd ei ffordd ei hun. Doedd o ddim wedi dweud gair am y bwrdd dartiau wrth Dei, ei ffrind gorau. Felly ar ddiwrnod y pen-blwydd yn y ganolfan chwaraeon dyma rhieni Guto yn rhoi ei anrheg iddo ac yntau wedyn yn rhwygo'r papur oedd yn gorchuddio'r bwrdd dartiau. Yr eiliad honno roedd Dei yn ymbil ar ei rieni, 'Plîs, ga i fwrdd dartiau? Un 'run fath â Guto.'

'Na' meddai'i dad wrtho, 'mae'n rhy beryg rhag ofn i'r dartiau fynd i lygaid Swyn dy chwaer fach.'

Weddill y pnawn bu Guto a Dei yn chwarae dartiau. Pan oedd pawb yn hwylio i fynd adref dyma Dei yn gafael yn y dartiau, a'u rhoi yn ei boced. Cyn cyrraedd y tŷ taflodd y dartiau i ganol y llwyni ar ochr y ffordd.

Bu Guto yn chwilio a chwilio'n ddyfal am y dartiau. Ond ddywedodd Dei ddim gair.

Yn yr ysgol fore Llun dywedodd Marged ei bod wedi gweld Dei yn rhoi'r dartiau yn ei boced. Er bod Guto a Dei yn dal i fyw drws nesaf i'w gilydd fuon nhw ddim yn ffrindiau wedyn. Fe wnaeth Dei dro sâl â Guto. Yn union fel arogl nionod roedd yr arogl wedi aros am rai misoedd.

Trafodaeth bellach:

- Sut byddech chi'n disgrifio perthynas Guto a Dei?

- Pam oedd Dei yn genfigennus?

- Ydych chi'n meddwl eu bod wedi dod yn ffrindiau wedyn?

Emyn: Iesu yw fy ffrind: Canu Clod 242

Dyfyniad o'r Beibl:
Mae ffrind yn ffyddlon bob amser. Diarhebion 17:17 beibl.net

Munud i feddwl:
Mae ffrind da yn fy ngwneud i yn berson gwell.

Myfyrdod/Gweddi:
Diolch am Iesu Grist sydd yn barod i'n helpu i ddod yn ffrindiau efo'n gilydd. Amen.